HEDDLU SIFIL NIWCLEAR

Darpara'r Heddlu Sifil Niwclear wasanaeth heddlu arfog arbenigol penodol ar gyfer y diwydiant sifil niwclear. Lleolir Unedau Gwarchod Gweithredol ar 15 o safleoedd sifil niwclear yn Lloegr, yr Alban a Chymru. Cyflogir dros 800 o swyddogion heddlu a staff. Yng Nghulham, Swydd Rhydychen, y mae'r pencadlys. Mae'r diwydiant sifil niwclear yn rhan o is-adeiledd cenedlaethol hanfodol y DU a chyfranna'r Heddlu i'r fframwaith diogelwch cenedlaethol yn ei gyfanrwydd.



Diben yr Heddlu yw gwarchod safleoedd sifil niwclear trwyddedig a diogelu defnydd niwclear ar daith. Cydweithia'r Heddlu ym mhob safle â'r Swyddfa Gartref briodol neu heddlu Llywodraeth yr Alban. Cytunir ar y gwasanaethau gwarchod angenrheidiol ym mhob safle gyda'r cwmnïau niwclear yn unol â Rheoliadau Diogelwch y Diwydiannau Niwclear 2003 a chadarnheir hwy gan reolydd y DU, y Swyddfa Diogelwch Sifil Niwclear. I gydymffurfio â'r rheoliadau, rhaid wrth wasanaethau gwarchod arfog yn y rhan fwyaf o safleoedd sifil niwclear yn y DU. Mae'r rhan fwyaf o'r swyddogion yn yr Heddlu yn Swyddogion Awdurdodedig i ddefnyddio gynnau.

Adolygir diogelwch sifil niwclear yn gyson gan Dîm Rheoli'r Heddlu a'r Swyddfa Diogelwch Sifil Niwclear. Oherwydd amrediad o ffactorau, ac i osgoi patrwm rheolaidd wrth ymateb i ddigwyddiad, newidir tactegau gweithredu'n fynych. Mae gan yr Heddlu enw da iawn am warchod y diwydiant sifil niwclear. Trwy ffocws gweithredu eglur, bwriedir cynnal hyn.

Defnyddia'r Heddlu strategaeth patrolio sy'n rhoi sicrwydd i'r cyhoedd yng nghyffiniau safleoedd sifil niwclear ac yn rhwystro neu ddelio â mân droseddau. Yn y mannau hyn, cyfyngir ac amherir ar amgylchedd gweithredu darpar derfysgwyr.